WELSH STATUTORY INSTRUMENTS

# 2001 No. 4006

# The Housing Renewal Grants (Prescribed Forms and Particulars) (Amendment No.2) (Wales) Regulations 2001

**Amendments**

**3.** In the (Welsh language) form set out in the Schedule to the Housing Renewal Grants (Prescribed Form and Particulars) (Welsh Form and Particulars) Regulations 1998(**1**):

(a) after question 3.34A insert—

"**3.34B** Rhowch fanylion unrhyw daliad o'r ymddiriedolaeth vCJD sydd wedi'i dalu i chi, i'ch partner neu i aelod o'ch teulu neu fanylion unrhyw daliad sydd wedi'i dalu i chi, i'ch partner neu i aelod o'ch teulu gan berson arall neu o ystad person arall ac sydd wedi'i dalu o daliad o'r ymddiriedolaeth vCJD a gafodd y person arall hwnnw. **Nodyn 90E";**

(b) after note 90D insert—

"**90E** Taliad o'r ymddiriedolaeth vCJD yw taliad sy'n cael ei dalu, o ymddiriedolaethau sydd wedi'u sefydlu gan yr Adran Iechyd, i'r rhai a gafodd amrywiolyn clefyd Creutzfeldt-Jakob (vCJD) a'u teuluoedd agos.

Er mwyn penderfynu a yw rhywun yn aelod o'ch teulu, ystyr "teulu" yw:

(a) pâr priod neu bâr dibriod;

(b) pâr priod neu bâr dibriod ac aelod o'r un aelwyd y mae un ohonynt neu'r ddau ohonynt yn gyfrifol amdano ac sy'n blentyn neu'n berson ifanc;

(c) person nad yw'n aelod o bâr priod neu bâr dibriod ac sy'n aelod o'r un aelwyd y mae'r person hwnnw yn gyfrifol amdano ac sy'n blentyn neu'n berson ifanc.

Mae taliad sydd wedi'i dalu i ddioddefwr vCJD neu i bartner y dioddefwr neu i bartner sydd wedi'i oroesi yn cael ei anwybyddu drwy gydol oes y person hwnnw

Mae taliad sydd wedi'i dalu i riant dioddefwr vCJD, ni waeth beth fo oedran y dioddefwr, neu i berson sydd neu a oedd yn gweithredu yn lle rhiant i blentyn dibynnol sy'n ddioddefwr, yn cael ei anwybyddu am 2 flynedd o'r dyddiad y cafodd y taliad ei dalu iddynt.

Mae taliadau sydd wedi'u talu i blant neu bersonau ifanc dibynnol yn cael eu hanwybyddu drwy gydol y cyfnod o ddyddiad y taliad tan y diwrnod cyn iddynt ymadael ag addysg amser-llawn neu'r diwrnod cyn eu pen-blwydd yn 19 oed neu am 2 flynedd o ddyddiad y taliad, p'un bynnag yw'r dyddiad olaf."

(**1**) S.I.1998/1113 as amended by S.I. 1999/2316, 1999/3470(W.56) 2000/1735(W.119) and 2001/2071(W.143)